Cymraeg Clir

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i wneud Cytundebau Cyflog Teg ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

## Beth ydych chi'n feddwl am ein cynlluniau?

Chwefror 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Datblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru i osod Cytundebau Cyflog Teg ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** CCT.Cyswllt@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Gymraeg Clir. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn Cymraeg Clir yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Am yr arolwg hwn .................................................................... 4**

Cyflog Teg a'r Gyfraith ........................................................... 5

Pam rydyn ni angen y CNGC ..................................................... 6

Sut i sefydlu'r CNGC.................................................................. 8

Sut fydd y CNGC yn cael ei redeg............................................... 10

Sut fydd y CNGC yn gwneud penderfyniadau.......................... 20

Proses negodi ............................................................................ 21

Beth fydd y CNGC yn ei gynnwys .............................................. 24

Pwy sydd ddim wedi'u cynnwys ................................................ 27

Beth sy'n digwydd os nad oes cytundeb .................................. 39

Beth sy'n digwydd pan fydd y CNGC yn dod i gytundeb ...... 41

Dilyn y rheolau newydd ............................................................. 43

**Amdanoch chi ............................................................................ 51**

# Am yr arolwg hwn

Ni ydy Llywodraeth Cymru. Mae’r arolwg yma am  ddatblygu **Corff Negodi** Gofal Cymdeithasol newydd  fydd yn cytuno ar gyflog teg i bobl sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae **Corff Negodi** yn grŵp fyddai’n cynrychioli’r sector gofal cymdeithasol. Fe fydden nhw’n ceisio gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael cyflog teg ac amodau gwaith teg.

Bydd y grŵp hwn yn cael ei alw’n **Gorff Negodi Gofal Cymdeithasol.** Byddwn yn ei alw’n fyr yn **CNGC** yn y ddogfen hon.

Mae gofal cymdeithasol yn meddwl rhoi cymorth i bobl sydd angen help. Mae’n helpu pobl i fyw’n dda, cadw’n ddiogel, a gwneud cymaint ag maen nhw’n gallu drostyn nhw eu hunain.

Rydyn ni’n meddwl am ffyrdd newydd o wella cyflog i weithwyr gofal cymdeithasol.

Defnyddiwch yr arolwg yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am ein cynlluniau. Gallwch anfon eich atebion atom erbyn **dydd Mawrth, 28 Ebrill 2026**.

# Cyflog Teg a’r Gyfraith

Mae yna gyfraith newydd yn y DU am gyflog teg i weithwyr gofal cymdeithasol.

Mae’r gyfraith newydd yn meddwl bod modd sefydlu grŵp i edrych ar gyflog teg i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl o’n cynlluniau ar gyfer y **CNGC**.

Darllenwch y ddogfen yma ac atebwch y cwestiynau.

Dydyn ni ddim yn gofyn am gyflog teg yn unig. Rydyn ni’n gofyn am sut fydd y **CNGC** yn gweithio.

# Pam rydyn ni angen y CNGC

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn darparu gwasanaethau pwysig i bobl a chymunedau.

Ond mae gan lawer o weithwyr gofal cymdeithasol gyflog isel ac amodau gwaith gwahanol.

Fe fyddai'r **CNGC** yn dod â phobl at ei gilydd i edrych ar y materion yma.

Fe fydden nhw'n gweithio gyda grwpiau eraill sydd yn helpu gweithwyr gofal cymdeithasol yn barod. Er enghraifft, y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Mae'r grwpiau yma wedi gweithio i helpu i wella cyflogau ac amodau yn barod.

Er enghraifft, ein helpu ni i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal yng Nghymru.

Fe fyddai’r **CNGC** yn gwneud yn siŵr bod gan weithwyr gofal cymdeithasol Gytundeb Cyflog Teg. Fe fyddai Cytundeb Cyflog Teg yn:

- Gosod rheolau mae’n rhaid i gyflogwyr eu dilyn yn ôl y gyfraith.
- Cytuno pa newidiadau sydd angen digwydd.

Fe fyddai’r **CNGC** yn siarad am:

- Tâl.
- Amodau swydd.
- Materion gwaith eraill.

Fe fydd y **CNGC** yn dod â grŵp o bobl sy’n cynrychioli’r gweithlu gofal cymdeithasol at ei gilydd. Er enghraifft:

- Undebau llafur. Mae’r rhain yn grwpiau sy’n cynrychioli gweithwyr ac yn amddiffyn eu hawliau.
- Cyflogwyr.
- Pobl sy’n penderfynu sut mae gwasanaethau gofal yn cael eu hariannu.

# Sut i sefydlu’r CNGC

Mae’r **CNGC** yn gallu cael ei sefydlu mewn 2 ffordd:

**Opsiwn 1:**

**Corff cyhoeddus sydd ddim yn adrannol**

Fe fyddai yn:

- Rhoi cyngor i Weinidogion Cymru am faterion.
- Gweithio ar wahân i Lywodraeth Cymru a gwleidyddiaeth.

**Opsiwn 2:**

**Pwyllgor arbenigol**

Fe fyddai yn:

- Rhoi cyngor annibynnol.
- Gweithio fel rhan o adran y llywodraeth.

Dyma sut mae cyrff tebyg eraill yn cael eu sefydlu nawr.

## Cwestiwn 1. Pa opsiwn ydych chi'n meddwl sy'n well?

☐ Opsiwn 1

☐ Opsiwn 2

Ysgrifennwch eich syniadau yma:

# Sut fydd y CNGC yn cael ei redeg

## Cadeirydd

Fe fydd gan y **CNGC** Gadeirydd. Fe fydd y person yma yn arwain cyfarfodydd ac yn arwain y gwaith.

Rhaid i'r Cadeirydd beidio â chymryd ochr ac fe fydd yn gweithio'n deg.

**Rhaid i'r Cadeirydd:**

- Gwybod llawer am ofal cymdeithasol.
- Bod yn dda am arwain cyfarfodydd a thrafod materion.
- Helpu'r grŵp i gyrraedd ei nodau.

## Ysgrifenyddiaeth

Fe fydd gan y CNGC Ysgrifenyddiaeth. fe fydd y bobl yma yn gwneud gwaith ymarferol, fel:

- Cymryd nodiadau.
- Trefnu cyfarfodydd.
- Ysgrifennu adroddiadau.

## Gweithwyr

Fe fydd undebau llafur yn cynrychioli gweithwyr yn y **CNGC**. Eu gwaith fydd gwneud yn siŵr bod barn gweithwyr yn cael eu clywed.

Mae'n bwysig bod gwahanol undebau llafur yn cymryd rhan, i gynnwys pob gweithiwr.

Fe fydd unrhyw beth sydd yn cael ei gytuno arno gan undebau llafur hefyd yn berthnasol i weithwyr gofal sydd ddim mewn undeb llafur.

Mae undebau yn gallu cael eu cynnwys mewn 2 ffordd wahanol.

**Opsiwn 1:**

Yn cynnwys undebau llafur TUC Cymru, Unsain, GMB a'r Coleg Nyrsio Brenhinol.

Mae'r undebau yma yn gweithio ar y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn barod,

TUC Cymru ydy'r prif gorff ar gyfer pob undeb llafur yng Nghymru.

**Opsiwn 2:**

Cynnwys undebau llafur annibynnol wedi ei seilio ar aelodaeth yn unig. Dim ond goruchwylio'r gwaith fyddai TUC Cymru.

## Cwestiwn 2. Pa opsiwn ydych chi'n meddwl sy'n well?

- [ ] Opsiwn 1
- [ ] Opsiwn 2

Ysgrifennwch eich syniadau yma:

# Cynrychiolwyr cyflogwyr

Mae cyflogwyr hefyd angen pobl i'w cynrychioli yn y **CNGC**. Mae sefydliadau fel **Fforwm Gofal Cymru** a 'r **Fforwm Darparwyr Cenedlaethol** yn gallu gwneud hyn.

## Cwestiwn 3. Ydych chi'n cytuno â hyn?

☐ Ydw

☐ Nac Ydw

☐ Ddim yn gwybod

Dywedwch wrthyn ni beth ydy eich syniadau yma:

Rydyn ni'n credu y dylai fod yr un nifer o seddi i weithwyr a chyflogwyr yn y grŵp. Felly fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod y cyflogwyr yn gallu enwebu cynrychiolwyr eraill.

Fe fydd hyn yn dod â'u niferoedd i'r un lefel â'r undebau llafur.

## Sefydliadau eraill

Sefydliadau eraill fyddai'n gallu chwarae rhan bwysig yn y gwaith yma ydy cynghorau lleol a chymdeithas cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.

Mae yna 2 opsiwn yma.

**Opsiwn 1:**

Fe fyddai'r holl sefydliadau uchod yn gallu bod yn aelodau llawn o'r **CNGC**. Dyma sut mae rhai cyrff eraill yn cael eu rhedeg yng Nghymru.

**Opsiwn 2:**

Dim ond grwpiau cyflogwyr ac undebau llafur sy'n aelodau llawn. Fe fyddai'r sefydliadau eraill yn rhoi cyngor yn unig.

**Cwestiwn 4. Pa opsiwn ydych chi'n meddwl sy'n well?**

☐ Opsiwn 1

☐ Opsiwn 2

Dywedwch wrthyn ni beth ydy eich syniadau yma:

# Llywodraeth Cymru

Mae'r undebau llafur a chyflogwyr gofal cymdeithasol rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn barod yn meddwl y dylen ni fod ar y **CNGC** hefyd. Ond dim ond i roi cyngor. Dim fel aelodau llawn.

## Cwestiwn 5. Ydych chi'n cytuno â hyn?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os **na**, dywedwch fwy wrthyn ni yma:

## Aelodau eraill

Fe fyddai aelodau eraill yn gallu cael eu hychwanegu i roi mwy o brofiad o ofal cymdeithasol.

Rydyn ni'n meddwl y dylen nhw fod yn arsylwyr neu gynghorwyr yn unig. Fe fydd hyn yn meddwl mai dim ond gweithwyr a chyflogwyr sy'n gwneud penderfyniadau.

### Cwestiwn 6. A ddylai unrhyw sefydliadau eraill fod yn aelodau?

☐ Ie

☐ Na

☐ Ddim yn gwybod

Os ie, dywedwch wrthyn ni pwy:

# Pobl sy’n talu am eu gofal eu hunain

**Cwestiwn 7. Mae rhai pobl yn talu am eu gofal eu hunain. Sut ddylai beth maen nhw’n feddwl gael ei gynnwys?**

# Sut fydd y CNGC yn gwneud penderfyniadau

Pan fydd y **CNGC** wedi gwneud penderfyniadau, fe fydd pob grŵp yn dweud wrth Weinidogion Cymru.

Fe fydd gweinidogion yn adolygu'r penderfyniadau. Os ydyn nhw'n cytuno, maen nhw'n gallu eu cymeradwyo i ddod yn gyfraith.

I ddod yn aelod o'r **CNGC** mae pobl yn gallu gofyn i Lywodraeth Cymru. Yna fe fyddwn ni'n trafod aelodaeth gydag aelodau eraill o'r **CNGC.**

# Proses negodi

Mae negodi yn meddwl siarad am wahanol safbwyntiau. Y nod ydy dod i gytundeb.

Fe fydd Gweinidogion Cymru yn gofyn i'r **CNGC** edrych ar fater.

Fe fydd y **CNGC** wedyn yn:

- Gofyn beth mae'r sector gofal cymdeithasol yn feddwl.
- Edrych ar y materion a chael mwy o wybodaeth os oes angen.

Mae'r grŵp gweithwyr a'r grŵp cyflogwyr yn penderfynu ar eu swyddi.

Yna fe fydd y Cadeirydd yn rhoi'r  cytundeb sydd wedi ei negodi i Weinidogion Cymru.

Yna mae Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r cytundeb os ydyn nhw yn cytuno, ac mae'r newidiadau yn gallu dod yn gyfraith.

## Cwestiwn 8. Ydych chi’n cytuno â sut fydd negodi yn digwydd?

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn gwybod

Dywedwch wrthyn ni pam rydych chi’n meddwl hyn:

## Question 9. Is 6 months is enough time to reach an agreement?

☐ Ydy

☐ Nac ydy

☐ Ddim yn gwybod

Dywedwch wrthyn ni pam rydych chi’n meddwl hyn:

# Beth fydd y CNGC yn ei gynnwys

Mae'r adran yma yn gofyn pa faterion cyflog a gwaith y dylai'r Corff ddelio â nhw.

A ddylai gynnwys pob rôl a materion gofal cymdeithasol y tu hwnt i dâl ac amodau. Er enghraifft, pethau fel hyfforddiant ac iechyd a diogelwch.

Fe fyddai'r **CNGC** yn gallu cynnwys y gwasanaethau yma:

- Gofal preswyl
- Gwasanaethau dydd
- Gofal cartref
- Gofal cymunedol
- Gofal iechyd

Fe fyddai'r **CNGC** yn gallu cynnwys y rolau swyddi yma:

- Gweithwyr gofal
- Uwch weithwyr gofal
- Cynorthwywyr personol
- Gweithwyr asiantaeth
- Gweithwyr gofal uniongyrchol eraill
- Rheolwyr
- Nyrsys
- Gweithwyr cymdeithasol
- Staff gweinyddol

**Cwestiwn 10 a. Oes unrhyw wasanaethau neu rolau swyddi na ddylid  eu cynnwys yn y CNGC ?**

**Cwestiwn 10 b. Oes unrhyw wasanaethau neu rolau swyddi y dylid eu cynnwys nad ydyn ni wedi sôn amdanyn nhw?**

# Pwy sydd ddim wedi'u cynnwys

Fe fydd y cytundebau cyflog teg yn cynnwys **gweithwyr gofal cymdeithasol cyflogedig** yn unig.

Fyddan nhw ddim yn cynnwys gofalwyr di-dâl. Mae gofalwyr di-dâl yn aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n darparu gofal heb dâl.

Fydd y cytundebau ddim yn cynnwys pobl sy'n hunangyflogedig. Mae hyn oherwydd nad ydyn nhw'n gweithio o dan amodau'r cyflogwr.

Rydyn ni  hefyd eisiau barn am y GIG a staff cynghorau lleol. Gan fod y gweithwyr yma fel arfer yn cael eu cynnwys gan gytundebau cenedlaethol eraill.

## Cwestiwn 11. A ddylai'r CNGC gynnwys staff sydd  wedi'u cynnwys gan Gorff arall yn barod?

- [ ] Le
- [ ] Na
- [ ] Ddim yn gwybod

Dywedwch wrthyn ni pam rydych chi'n meddwl hyn:

# Gwahanol gytundebau yng Nghymru a Lloegr

Fe fydd **CNGC** ar wahân yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn meddwl byddai gweithwyr sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr yn gallu cael 2 gytundeb cyflog teg gwahanol.

**Mae'r 2 gwestiwn nesaf ar gyfer sefydliadau gofal cymdeithasol yn unig.**

## Cwestiwn 12. Ydych chi'n rheoli gwasanaeth sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr?

☐ Ydy

☐ Nac ydw

Os **ydych** chi, sut ydych chi'n rheoli gwahaniaethau mewn cyflog ac amodau? Dywedwch wrthyn ni yma:

**Cwestiwn 13. Fyddai dilyn rheolau gwahanol ym mhob gwlad yn gwneud i chi roi'r gorau i redeg gwasanaethau fel rydych chi;n ei wneud nawr?**

☐ Le

☐ Na

Dywedwch fwy wrthyn ni yma:

**Cwestiwn 14. Pe bai cyflog ac amodau yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, fyddai hyn yn effeithio ar ble rydych chi’n dewis gweithio neu fyw?**

☐ Le

☐ Na

Dywedwch fwy wrthyn ni yma:

**Cwestiwn. Pe bai gan weithiwr 2 gytundeb cyflog teg gwahanol pa un o’r rhain ydych chi’n meddwl sy’n well?**

- [ ] Mae’r gweithiwr yn dilyn y cytundeb ar gyfer y wlad lle maen nhw’n gweithio’r oriau hynny.
- [ ] Mae’r gweithiwr yn dilyn 1 cytundeb wedi ei seilio ar ble maen nhw’n gweithio’r nifer fwyaf o oriau.
- [ ] Mae’r gweithiwr yn dilyn y cytundeb ar gyfer y wlad lle maen nhw’n byw.
- [ ] Arall
- [ ] Ddim yn gwybod

Dywedwch fwy yma:

## Materion cyflog a gwaith i'w cynnwys

Rydyn ni eisiau gwybod pa faterion cyflog y dylai'r CNGC eu cynnwys.
Er enghraifft:

- Gosod isafswm cyflog. Mae hyn yn meddwl y swm isaf o arian mae cyflogwr yn gallu ei dalu i weithiwr.
- Graddfeydd cyflog. Mae'r rhain yn gamau sy'n dangos sut mae cyflog yn cynyddu.
- Cyswllt tâl i sgiliau neu gymwysterau.
- Ychwanegiadau cyflog ar gyfer pethau fel gweithio oriau anghymdeithasol.

Rydyn ni hefyd eisiau gwybod pa delerau ac amodau sy'n bwysig. Telerau ac amodau ydy'r cytundeb rhwng gweithiwr a chyflogwr. Maen nhw'n dweud:

- Beth mae'n rhaid i'r gweithiwr ei wneud.
- Beth mae'n rhaid i'r cyflogwr ei ddarparu.

Nod y **CNGC** ydy gwella cyflog ac amodau gwaith.

## Cwestiwn 16. Pa faterion cyflog ddylai'r CNGC edrych arnyn nhw gyntaf?

## Cwestiwn 17. Pa faterion i’w wneud â thelerau ac amodau ddylai’r CNGC edrych arnyn nhw gyntaf?

## Cwestiwn 18. Pa hyfforddiant a datblygiad gyrfa ddylai'r CNGC ei gynnwys?

## Cwestiwn 19. Pa bolisïau gwaith eraill ddylai'r CNGC eu cynnwys?

**Cwestiwn 20. Oes unrhyw feysydd eraill y dylai'r CNGC eu cynnwys?**

# Beth sy'n digwydd os nad oes cytundeb

Yn ystod negodiadau mae'n gallu bod yn anodd dod i gytundeb rhwng y gweithwyr a'r grwpiau cyflogwyr yn y **CNGC**.

Mae hyn yn cael ei alw yn **anghydfod**. Anghydfod ydy pan nad ydy pobl yn gallu dod i gytundeb.

Yn y sefyllfa yma, rydyn ni, Llywodraeth Cymru yn gallu dechrau **proses datrys anghydfodau**.

Rydyn ni'n credu y dylai'r Cadeirydd geisio datrys yr anghydfodau yn gyntaf. Fe ddylen nhw hefyd benderfynu pryd nad ydy trafodaethau yn gallu parhau oherwydd nad ydyn nhw'n gallu dod i gytundeb.

Mae'r grŵp wedyn yn gallu pleidleisio i ddweud os oes anghydfod. Mae grŵp annibynnol wedyn yn gallu helpu'r **CNGC**.

Er enghraifft, mae **ACAS** yn grŵp sy'n helpu i ddatrys problemau am gyflog ac amodau gwaith rhwng cyflogwyr ac undebau llafur. Ac maen nhw'n annibynnol.

## Cwestiwn 21. Ydych chi'n cytuno â'n cynlluniau ar gyfer delio ag anghydfodau?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Ysgrifennwch eich sylwadau yma:

# Beth sy’n digwydd pan fydd y CNGC yn dod i gytundeb

Pan fydd y **CNGC** yn dod i gytundeb, mae camau yn gallu cael eu cymryd i’w wneud yn gyfreithlon.

Fe fydd Gweinidogion Cymru yn adolygu beth mae’r **CNGC** wedi cytuno. Mae’n rhaid iddyn nhw edrych i weld y bydd yn gweithio. Maen nhw’n gallu siarad ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU.

Os na fydd y cytundeb yn gweithio, mae’n mynd yn ôl i’r **CNGC**. Efallai y bydd angen i’r **CNGC** wedyn wneud newidiadau.

# Cadarnhau

**Cadarnhau** ydy pan fydd cytundeb yn cael ei gymeradwyo ac yn dod yn gyfraith.

Os nad ydy'r **CNGC** yn gallu cytuno ar ôl anghydfod, mae Gweinidogion Cymru yn gallu penderfynu yn lle hynny.

Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cytundeb, rhaid iddyn nhw ddweud wrth y sector gofal cymdeithasol.

Os bydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cytundeb, gall ddod yn gyfraith wedyn. Ond, rhaid iddynt gael cytundeb gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyntaf o dan Ddeddf 2025.

Mae gan bobl yr hawl i wybod sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud. Rydyn  ni'n credu y dylai'r **CNGC** gyhoeddi adroddiadau am bob cytundeb.

Pan fydd newidiadau yn mynd i ddigwydd, rhaid i bawb wybod eu hawliau a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud.

Er enghraifft:

- Mae angen i weithwyr gofal cymdeithasol wybod beth maen nhw'n gallu ei ddisgwyl.
- Mae angen i gyflogwyr wybod pa newidiadau  mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud.

Rydyn ni'n credu y dylem ni a'r CNGC gyhoeddi canllawiau gyda'n gilydd.

# Dilyn y rheolau newydd

Fe fydd cyflogwyr yn gyfrifol am wneud y newidiadau sydd wedi cael eu cytuno. Fe fydd y newidiadau yn dod yn rhan o gontractau gweithwyr.

Os nad ydy cyflogwyr yn gwneud y newidiadau, maen nhw'n gallu torri'r gyfraith.

Fe fydd canllawiau yn cael eu gwneud i helpu cyflogwyr i wybod beth sydd angen iddyn nhw ei wneud.

Os nad ydy cyflogwyr yn dilyn y rheolau, rhaid i weithwyr allu cwyno.

Yn gyntaf, mae gweithwyr yn gallu codi'r mater gyda'u cyflogwr.

Os nad ydy hyn yn gweithio, maen nhw'n gallu cael cyngor gan sefydliadau fel ACAS.

Fe fydd Asiantaeth Gwaith Teg newydd (AGT) hefyd yn cael ei sefydlu. Fe fyddan nhw yn gwneud yn siŵr bod deddfau'n cael eu dilyn.

Fe fydd ganddyn nhw **bwerau gorfodi**.

Mae **pwerau gorfodi** yn meddwl cael y pŵer i weithredu pan fydd rhywun yn torri'r rheolau.

Er enghraifft:

- Maen nhw'n gallu dweud wrth gyflogwyr i dalu arian sy'n ddyledus i staff.
- Maen nhw'n gallu gwneud i gyflogwyr dalu dirwy.

Mae yna ffyrdd o **orfodi** hawliau yn barod. Er enghraifft, mae gweithwyr yn gallu defnyddio **tribiwnlys cyflogaeth**.

Mae **tribiwnlys cyflogaeth** yn llys arbennig. Mae'n helpu i setlo problemau gwaith rhwng gweithwyr a chyflogwyr. Mae'n cael ei ddefnyddio fel arfer fel cam olaf.

**Cwestiwn 22. Beth ydych chi'n feddwl am ddelio â chwynion am dâl ac amodau?**

**Cwestiwn 23. Ddylai Llywodraeth Cymru a'r CNGC weithio gyda'i gilydd i wneud canllawiau am newidiadau sydd wedi cael eu cytuno?**

☐ Ie

☐ Na

☐ Ddim yn gwybod

Dywedwch fwy wrthyn ni yma:

**Cwestiwn 24. Oes gennych chi syniadau eraill am gymorth sydd ei angen i wneud yn siŵr bod cyflogwyr yn dilyn cytundebau?**

## Gwneud yn siŵr bod y gwaith yma yn deg

Rydyn ni eisiau i'r gwaith yma fod yn deg i bawb. Mae hyn yn cynnwys pobl â gwahanol gredoau, anghenion neu gefndiroedd.

### Cwestiwn 25. Ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn cael effaith dda ar unrhyw grŵp o bobl?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os **ydych** chi, dywedwch fwy wrthyn ni yma:

## Cwestiwn 26.  Ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn cael effaith wael ar unrhyw grŵp o bobl?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os **ydych** chi, dywedwch fwy wrthyn ni yma:

## Cwestiwn 27. Ydych chi'n meddwl y bydd y gwaith yma yn effeithio ar yr iaith Gymraeg?

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

Os **ydych** chi, dywedwch fwy wrthyn ni yma:

# Amdanoch chi

**Does dim rhaid i chi ateb pob cwestiwn. Atebwch y cwestiynau rydych chi am eu hateb yn unig.**

## Cwestiwn 28. Ydych chi yn:

- [ ] Person sy’n rhannu eich barn eich hun
- [ ] Person sy’n rhannu eich safbwyntiau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys pobl sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.
- [ ] Ar ran sefydliad
- [ ] Cyflogwr o 1 neu fwy o gynorthwywyr personol

## Cwestiwn 29. Faint ydy eich oed?

**Cwestiwn 30. Beth ydy eich rhyw?**

**Cwestiwn 31. Ydy eich rhyw yr un fath â phan gawsoch eich geni?**

**Cwestiwn 32. Beth ydy eich grŵp ethnig?**

**Cwestiwn 33. Oes angen unrhyw ofal hirdymor arnoch chi neu aelod o'r teulu?**

- [ ] Oes
- [ ] Nac Oes

## Cwestiwn 34. Ydych chi'n darparu gofal di-dâl i rywun, fel aelod o'r teulu neu ffrind?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os **ydych** ci, faint o oriau yr wythnos?

## Cwestiwn 35. Ym mha ardal ydych chi'n byw ynddi?

## Cwestiwn 36. Ydych chi'n gweithio yn:

☐ Gofal iechyd

☐ Gofal cymdeithasol

☐ Dim un o'r uchod

## Os ydych chi'n gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol:

### Cwestiwn 37. Beth ydy eich swydd?

### Cwestiwn 38. Pwy ydy eich cyflogwr?

- [ ] Cyngor lleol
- [ ] Y GIG
- [ ] Cwmni preifat
- [ ] Elusen
- [ ] Arall

Os Arall, dywedwch fwy wrthyn ni os gwelwch yn dda:

**Cwestiwn 39. Pa fath o wasanaethau gofal ydych chi'n eu darparu? Er enghraifft, cartref gofal, nyrsio, byw â chymorth, gwasanaethau dydd.**

**Cwestiwn 40. Sawl awr yr wythnos ydych chi'n gweithio?**

**Cwestiwn 41. Pa grŵp ydych chi'n darparu gwasanaethau gofal iddo?**

- [ ] Plant
- [ ] Oedolion
- [ ] Oedolion dros 65 oed
- [ ] Arall:

Os Arall, dywedwch fwy wrthyn ni os gwelwch yn dda:

## Cwestiwn 42. Oes gennych fisa neu ganiatâd i astudio neu weithio yn y DU?

☐ Oes

☐ Nac Oes

Anfonwch eich atebion atom erbyn **dydd Mawrth, 28 Ebrill 2026.**

**Gallwch anfon e-bost at:** CCT.Cyswllt@llyw.cymru

Neu

**Ysgrifennwch atom yn:**

Tîm y Gweithlu Gofal Cymdeithasol
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

Efallai y byddwn ni'n rhannu eich atebion mewn adroddiad. Fyddwn ni ddim yn cynnwys eich enw yn yr adroddiad.

Os ydych chi eisiau cael copi hawdd ei ddeall o sut rydyn ni'n cadw ac yn defnyddio eich manylion personol, anfonwch e-bost at: dataprotectionofficer@gov.wales